



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Tairgwaith**

**Heol Llwyncelyn  
Tairgwaith  
Rhydaman  
SA18 1UU**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Tairgwaith

|                                                                                                                                                                                                                                     |                                                   |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------|
| Enw'r darparwr                                                                                                                                                                                                                      | Ysgol Gynradd Tairgwaith                          |
| Awdurdod lleol                                                                                                                                                                                                                      | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr                                                                                                                                                                                                                    | Saesneg                                           |
| Math o ysgol                                                                                                                                                                                                                        | Cynradd                                           |
| Cymeriad crefyddol                                                                                                                                                                                                                  | Dim                                               |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr                                                                                                                                                                                                    | 104                                               |
| Disgyblion o oed ysgol statudol                                                                                                                                                                                                     | 87                                                |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin                                                                                                                                                                                                   | 11                                                |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 34.1%                                             |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%)                                           | 19.5%                                             |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd                                                                                                                                                                                | 2.9%                                              |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol                                                                                                                                                                        | 5.7%                                              |
| Dyddiad penodi'r pennaeth                                                                                                                                                                                                           | 01/01/2015                                        |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)                                                                                                                                                                              | 01/03/2016                                        |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad                                                                                                                                                                                                         | 05/02/2024                                        |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fysgolleol.llyw.cymru](https://fysgolleol.llyw.cymru)

- Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Tairgwaith yn ysgol hapus a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau da o ddiddordeb yn eu gwersi ac yn mwynhau'r cyfleoedd a gânt i wella'u hysgol fel rhan o grwpiau llais y disgybl. Rhoddir pwyslais cryf ar gymuned, ac mae teuluoedd yn gwerthfawrogi rôl yr ysgol yn eu bywydau yn fawr. Ceir lefel uchel o ofal a pharch ymhlith disgyblion, staff a llywodraethwyr, ac fe gaiff hyn ddylanwad cadarnhaol iawn ar gweddau ac ymddygiadau disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion, ac yn creu cysylltiadau da â'r gymuned leol. Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn adeiladu'n raddol ar yr hyn y mae disgyblion yn ei wybod. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn cynllunio i ddiwallu anghenion unigol yn dda. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu medrau ysgrifennu a rhifedd yn gyfyngedig, yn enwedig yn y dosbarthiadau hŷn. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion hŷn yn ymestyn nac yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd yn ddigon da nac yn gwneud cynnydd ar y gyfradd y gallant.

Mae gan staff berthnasoedd cryf â disgyblion. Maent yn defnyddio anogaeth gadarnhaol, ac yn canmol disgyblion am eu cyflawniadau. Ym mwyafrif yr achosion, mae staff yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r adborth yn eu cynorthwyo i nodi'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae arweinwyr yn gweithio gyda disgyblion a'r gymuned i greu gweledigaeth ar gyfer gwaith yr ysgol ac yn mynd i'r afael â rhai blaenoriaethau cenedlaethol fel diwygio ADY yn dda iawn. Mae staff yn cydweithio i gyfrannu at waith gwella, ac yn ymgymryd â gweithgareddau monitro addas. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau hyn bob amser yn arwain at y gwelliannau angenrheidiol, er enghraifft mewn datblygu cynllun eu cwricwlwm ymhellach. Mae llywodraethwyr yn weithgar iawn yn datblygu'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn helpu sicrhau ei bod yn diwallu anghenion niferus ei chymuned yn dda.

## Argymhellion

- A1 Mynd i'r afael â'r anghysondebau yn ansawdd yr addysgu
- A2 Gwella medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion yn y dosbarthiadau hŷn
- A3 Rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion hŷn fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud i wella'u gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Tairgwaith, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u manau cychwyn. Yn aml, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da iawn wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Maent yn ymgynefino â bywyd ysgol yn gyflym ac yn ymateb yn dda i arferion. Mae llawer ohonynt yn datblygu'r hyder i fynegi eu hunain yn glir; er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn siarad yn frwdfrydig wrth wneud uwd ym mwthyn y tri arth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafaredd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn siarad yn hyderus â'i gilydd ac yn awyddus i siarad am eu dysgu gydag oedolion; er enghraifft, mae disgyblion iau yn esbonio priodweddau deunyddiau wrth greu lloches. Erbyn Blwyddyn 6, mae medrau llafaredd llawer o ddisgyblion wedi datblygu'n dda iawn a gallant fynegi eu hunain a'u syniadau yn hyderus. Er enghraifft wrth drafod pwysigrwydd diogelwch ar-lein, mae disgyblion hŷn yn gwrandao ar ei gilydd ac yn mynegi eu syniadau am sut gellir gwella hyn o fewn eu hysgol.

At ei gilydd, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda, ac erbyn diwedd yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da. Mae llawer o ddisgyblion iau yn gwrandao ar storïau â mwynhad ac yn eu hail-ddweud yn eu geiriau eu hunain. Maent yn adnabod amrywiaeth o seiniau ac yn dechrau darllen geiriau a brawddegau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd dros ddarllen ac yn defnyddio'u gwybodaeth am ffonog i gefnogi eu cynnydd. Maent yn creu geiriau yn gywir ac yn dechrau darllen testunau syml yn dda.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau darllen yn briodol â rhuglder a dealltwriaeth gynyddol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brasddarllen a llithrddarllen i gael gwybodaeth wrth ymchwilio ar-lein, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r testunau y maent yn eu darllen. Maent yn llunio casgliadau yn gadarn, er enghraifft wrth ddisgrifio'r cymeriadau o chwedl Cantre'r Gwaelod, tra'n defnyddio'r Gymraeg i enwi'r cymeriadau, fel 'Y Brenin'.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu cynnar. Yn y dosbarth meithrin, maent yn datblygu eu medrau creu marciau trwy weithgareddau amlsynhwyrdd, ac yn y dosbarth derbyn, maent yn dechrau ysgrifennu geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi datblygu'r medrau hyn yn dda ac yn ysgrifennu brawddegau estynedig yn

annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn parhau i wneud cynnydd yn eu medrau ysgrifennu wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn ysgrifennu areithiau perswadiol am fanteision bod yn garedig fel rhan o'u testun 'Caredigrwydd' ac yn ailysgrifennu chwedlau yn eu geiriau eu hunain. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn ymestyn nac yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu'n ddigon da ac nid ydynt bob amser yn ymfalchio yn y ffordd maent yn cyflwyno eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn briodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gwybodaeth sylfaenol am rif trwy ystod o weithgareddau ymarferol, fel cyfrif ar goedd nifer y darnau o bren sydd eu hangen i adeiladu tŷ ar gyfer Y Tri Mochyn Bach. Mewn dosbarthiadau iau, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu strategaethau addas i ddatrys problemau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn adio, tynnu, rhannu a lluosio rhifau mawr gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau yn effeithiol. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfleoedd cyfyngedig, nid yw disgyblion yn ehangu eu gwybodaeth fathemategol yn ddigon eang nac yn cymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn effeithiol. O oedran cynnar, mae disgyblion yn defnyddio dyfeisiau digidol yn hyderus i gofnodi ac ymestyn eu profiadau dysgu; er enghraifft, mae Blwyddyn 2 yn defnyddio rhaglenni codio yn annibynnol i anfon roced rithwir i'r gofod. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau digidol yn dda i gefnogi eu hymchwil a chyflwyno'u canfyddiadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio rhaglenni mwy cymhleth â hyder ac annibyniaeth gynyddol, er enghraifft i greu animeiddiadau byw i ddangos sut i gloddio glo yn lleol yn Nyffryn Aman.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg yn dda iawn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau dysgu amrywiaeth o ganeuon a rhigymau Cymraeg a chwarae gemau ymarferol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus yn Gymraeg pan ofynnir cwestiynau mwy cymhleth iddynt fel rhan o sgwrs gydag ymwelwyr am eu hoff wersi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol gwerthfawr. Mae disgyblion iau yn mwynhau adeiladu tai ar gyfer Y Tri Mochyn Bach, ac mae disgyblion hŷn yn mwynhau creu paentiadau o Lyn y Fan Fawr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda yn ystod gweithgareddau ar y maes chwarae, mewn clybiau ar ôl yr ysgol, ac mewn gwarsi. Maent yn dangos rheolaeth ac ystwythder sy'n briodol i'w cyfnod datblygu, ac yn mwynhau bod yn egniol mewn gwarsi a'r tu allan iddynt.

### **Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae disgyblion yn falch o berthyn i deulu Tairgwaith. Mae bron pob un ohonynt yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn datblygu cyfeillgarwch cadarn a pherthnasoedd ymddiriedus yn fuan â phob aelod o staff. O ganlyniad, maent yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn derbyn gofal. Mae disgyblion yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein a gallant esbonio sut byddent yn delio â sefyllfa pe bai'n codi; er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn creu posteri i atgoffa disgyblion eraill i ddweud wrth oedolyn y maent yn ymddiried ynddo os byddant yn derbyn neges gas ar eu dyfais.

Mae'r agweddau cadarnhaol a ddangosir gan bron bob un o'r disgyblion yn cyfrannu at awyrgylch digynnwrff yn yr ysgol. Maent yn ymateb yn dda i'w gilydd ac yn barchus at gyfoedion ac oedolion. Maent yn teimlo y gwrandewir arnynt ac yn teimlo'n ddiogel i ofyn am gymorth, pan fydd angen. Maent yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac ar yr iard. Wrth symud o gwmpas yr ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud hynny gan roi gofal ac ystyriaeth i ddisgyblion a phobl eraill. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i reoli eu hemosiynau'n dda, ac mae staff yn eu cynorthwyo'n ofalus i gyflawni hyn.

Mae'r positifedd hwn yn parhau yn agweddau disgyblion at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ymgysylltu â'u dysgu ac yn mwynhau gwerthuso'u gwaith eu hunain, a gwaith eu cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gwella'u paentiadau trwy wrando ar awgrymiadau eu ffrindiau y dylent beintio planedau'n fwy llachar a'u cefndiroedd yn dywyllach. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau da o wydnwch wrth ymgymryd â gweithgareddau a datrys problemau, er enghraifft ailadeiladu eu tai o wahanol ddeunyddiau pan maent yn cael eu chwythu i lawr gan y blaidd. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio cyfesurynnau ar yr iard i greu a datrys helfeydd trysor. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol ar draws y cwricwlwm gan ddefnyddio ystod o gyfryngau a meddalwedd ddigidol i gefnogi hyn; er enghraifft, fel rhan o'u testun yn archwilio chwedlau Cymreig, mae disgyblion hŷn yn creu animeiddiadau diddorol i ail-ddweud y stori am Bont y Gŵr Drwg.

Pan gânt gyfle, mae llawer ohonynt yn gwerthfawrogi'r amser i fyfrio ar eu dysgu a gwella'u gwaith. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn ymateb i adborth llafar o ansawdd da yn ystod gwersi, er enghraifft i wella'u safon wrth ysgrifennu stori. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio meini prawf llwyddiant i gefnogi eu dealltwriaeth o sut gallant wella'u gwaith. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw disgyblion hŷn yn cael adborth sy'n canolbwyntio ar y camau nesaf penodol pwysig yn eu dysgu, ac o ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth gyfyngedig am sut i wella'u gwaith dros gyfnod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd niferus a gânt i ddatblygu fel dinasyddion byd-eang, fel trefnu boreau coffi i godi arian. Maent yn datblygu eu hymwybyddiaeth o faterion byd-eang yn dda trwy ystod o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion yn elwa ar weithdy datgoedwigo sy'n eu helpu i adnabod effaith cynhesu byd-eang ar wledydd o gwmpas y byd yn well, gan gynnwys newidiadau o fewn eu bro eu hunain. Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o Hawliau'r Plentyn ac yn esbonio sut mae hyn yn effeithio arny'n nhw; er enghraifft, mae disgyblion yn nodi'n hyderus yr hawl i fod yn ddiogel ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda ag ystod eang o weithgareddau yn ystod amseroedd egwyl ac ar ôl yr ysgol yn ogystal, er enghraifft y clwb antur awyr agored sy'n datblygu eu medrau corfforol a datrys problemau.

Mae llawer ohonynt yn hyderus wrth gyflawni rolau â chyfrifoldeb. Caiff disgyblion o amrywiaeth o gefndiroedd eu cynnwys yn weithredol mewn ystod o grwpiau llais y disgybl, sy'n cyfrannu'n dda tuag at natur gynhwysol yr ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn ymfalchïo'n fawr yn eu rolau ac yn gallu esbonio sut mae eu gwaith yn effeithio ar y gymuned ehangach; er enghraifft, yn ddiweddar, cefnogon nhw'r hyb bwyd lleol trwy annog rhoddion o fwyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi buddion bwyta ac yfed yn iach, ac yn siarad am bwysigrwydd ymarfer corff i gynnal iechyd da. Maent yn mynd ati i ymgymryd â chyfleoedd i hyrwyddo'u ffitrwydd yn yr ysgol, er enghraifft cymryd rhan mewn milltir ddyddiol. Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion meithrin yn dod o hyd i'r ffordd ar gwrs yn yr awyr agored gan ddefnyddio beiciau tra bod disgyblion hŷn yn arwain gweithgareddau chwaraeon Llysgennad Ifanc ar gyfer disgyblion iau, sydd i gyd yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae cymuned yr ysgol gyfan wedi datblygu gweledigaeth sydd â'r nod o gefnogi disgyblion i ddod yn annibynnol a'u 'paratoi nhw ar gyfer dyfodol gwell'. Maent yn rhoi pwysigrwydd uchel ar berthyn i'w cymuned, ac mae hyn yn dylanwadu ar werthoedd yr ysgol. Mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn darparu amgylchedd anogol lle mae pob un o'r disgyblion a'u teuluoedd, ni waeth beth yw eu cefndir neu'u hamgylchiadau, yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae bron pob un o'r staff yn adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd yn eithriadol o dda, ac yn cynnig lefel uchel o gymorth i ddiwallu eu hanghenion. Mae athrawon yn gwneud y gorau o amgylchedd awyr agored yr ysgol ac yn cynllunio profiadau dysgu i ddisgyblion archwilio a datblygu medrau newydd. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cynnal taith gerdded sain yn yr awyr agored i helpu creu lleoliad ar gyfer eu storïau, ac mae aelodau o glwb garddio'r ysgol yn tyfu llyisiau.

Mae'r ysgol yn datblygu cynllunio'r cwricwlwm i gyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn canolbwyntio'r dysgu ar 'gysyniadau' cynlluniedig ac yn dechrau ystyried y ffyrdd y bydd meysydd dysgu a phrofiad yn cyfrannu at ddatblygu gwybodaeth a medrau disgyblion yn gysylltiedig â hyn. Megis dechrau y mae hyn ac nid yw staff wedi datblygu cwricwlwm digon cytbwys eto sy'n sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r ystod lawn o fedrau sydd eu hangen. Mae'r ymagwedd at ddysgu mewn mathemateg, er enghraifft, yn canolbwyntio ar ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o bedair gweithred rhif yn fanylach. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn ystod o feysydd mathemategol yn llai datblygedig, ac felly mae'r cynllunio cyffredinol ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm mewn rhifedd yn gyfyngedig.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion. Mae staff yn darllen ar goedd i ddisgyblion ac yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol, gan annog disgyblion i ddarllen er mwynhad a'u cyflwyno i awduron newydd. Maent yn meithrin mwynhad disgyblion o ddarllen yn llwyddiannus, ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso eu medrau darllen ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, yn y dosbarthiadau hŷn, nid yw darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion bob amser yn sicrhau bod yr addysgu'n adeiladu ar wybodaeth flaenorol disgyblion nac yn caniatáu digon o gyfleoedd iddynt gymhwyso'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau a'u hyder yn cymhwyso'u medrau digidol ar draws y cwricwlwm. O oedran cynnar, mae oedolion yn annog disgyblion i gofnodi eu profiadau dysgu ar ddyfeisiau. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae staff yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau, gan gynnwys creu cyflwyniadau, dylunio posteri a chodio syml. Mae

disgyblion hŷn yn defnyddio medrau animeiddio digidol i greu clipiau ffilm diddorol o olygfeydd o chwedlau Cymreig.

Mae staff yn gwneud defnydd da iawn o ystod o strategaethau i sicrhau bod disgyblion ag ADY yn gallu cael mynediad at gwricwlwm yr ysgol yn unol â'u cyfnod datblygu. Mae staff cymorth yn cyflawni eu rolau i gynorthwyo disgyblion yn eu dysgu o fewn yr ystafell ddosbarth yn dda. Mae ychydig ohonynt yn cefnogi sesiynau grŵp neu un i un hynod arbenigol. Maent yn darparu cymorth sensitif ac amserol, sy'n galluogi disgyblion i ymgysylltu'n fwy rhwydd â'u dysgu, ac mae hyn yn cyfrannu at ymagwedd hynod gynhwysol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a threftadaeth Gymreig yn dda iawn. Mae athrawon yn defnyddio'r ardal leol a'r ardal ehangach yn briodol i gefnogi dysgu'r disgyblion trwy dripiâu a chyfleoedd preswyl. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld â thomen lo leol fel rhan o'u testun 'Perthyn i Tairgwaith'. Mae disgyblion hŷn yn ymchwilio i hanes bathodyn yr ysgol, a rhoddir cyfleoedd iddynt gyfweled â thrigolion lleol sydd wedi cloddio glo yn y pentref er mwyn rhoi profiadau uniongyrchol iddynt ac archwilio'r ystyr y tu ôl i'r logos. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad y disgyblion yn y Gymraeg yn adeiladu'n dda ar eu gwybodaeth a'u medrau presennol. Mae athrawon yn defnyddio sesiynau dyddiol i helpu datblygu rhuglder disgyblion mewn patrymau iaith, ac yn darparu cyfleoedd hwyliog a difyr i ymarfer y medrau hyn.

Mae staff yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion ac yn rheoli ymddygiad yn dda. Mae hyn yn creu amgylchedd gweithio da ac yn galluogi disgyblion i deimlo'n hyderus y gallant ofyn cwestiynau a gofyn am gymorth â'u dysgu. Mae hyn yn adlewyrchu ethos cynnes a chefnogol yr ysgol. Pan mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae amcanion dysgu'n glir, mae athrawon yn rhannu meini prawf llwyddiant gwerthfawr ac yn creu cysylltiadau gwerthfawr â dysgu blaenorol. Yn ystod y sesiynau hyn, mae athrawon a staff cymorth yn gwneud defnydd da o holi i herio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i gyflwyno'u dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae athrawon mewn dosbarthiadau hŷn yn meddu ar wybodaeth bynciol dda, ac yn yr enghreifftiau gorau, yn defnyddio strategaethau holi effeithiol i asesu dealltwriaeth disgyblion. Fodd bynnag, mae ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu yn amrywio ar draws yr ysgol, ar y cyfan. Nid yw athrawon yn y dosbarthiadau hŷn bob amser yn cynllunio ystod effeithiol o brofiadau dysgu i symbylu a herio'r holl ddisgyblion.

Mae mwyafrif o athrawon a staff cymorth yn rhoi adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion yn ystod gwersi, sy'n cynorthwyo disgyblion i symud ymlaen yn briodol yn eu dysgu. Pan mae'r adborth hwn yn effeithiol, mae athrawon yn ymgymryd â deialog gyda disgyblion i'w helpu i feddwl am eu dysgu, beth maent yn ei wneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio meini prawf llwyddiant i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn briodol. Fodd bynnag, nid yw staff bob amser yn sicrhau eu bod yn deall diben eu dysgu a'u camau nesaf yn llawn.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae pawb yng nghymuned Ysgol Tairgwaith wedi ymrwymo i gynnal yr amgylchedd cynnes ac anogol lle mae lles disgyblion yn ganolog i bopeth a wna. Mae gan staff



berthnasoedd cadarnhaol a pharchus â disgyblion, rhieni a gofalwyr, ac yn darparu cymorth amserol i ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn cyfrannu at hyder a hunanbarch disgyblion ac yn annog ymddygiad da. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant o gynwysoldeb ac yn rhoi ystod eang o gymorth ar waith i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol iawn ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r Cydlynnydd ADY yn meddu ar ddealltwriaeth glir o anghenion yr holl ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn yr ysgol. Mae staff cymorth medrus yn deall eu cyfrifoldebau o ran cynorthwyo'r disgyblion hyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion cymhleth. Mae'r gweithdrefnau sydd ar waith i nodi anghenion, darparu cymorth ac ymyrraeth ac adolygu cynnydd yn golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn gwneud eu cynnydd disgwylidig, o leiaf, wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Caiff Cynlluniau Datblygu Unigol eu hysgrifennu mewn cydweithrediad â disgyblion, staff a rhieni i sicrhau bod disgyblion yn derbyn lefel uchel o gymorth ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i hasiantaethau partner i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd. Mae ganddi gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol ac mae'n gwneud defnydd da o hyn trwy fforwm ADY y clwstwr.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion o bob cefndir i ymgysylltu ag ystod o grwpiau gweithredol llais y disgybl ac arweinyddiaeth. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys mewn agweddau pwysig ar fywyd ysgol, fel cyfrannu at weledigaeth yr ysgol a chyflwyno gwasanaethau ar ddiogelwch ar y rhyngwrwd. Mae'r Cops Cymreig yn rhan bwysig o ddatblygu a mwynhau defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol; er enghraifft, maent yn addysgu ac yn arwain gemau Cymraeg ar y maes chwarae. Mae grŵp eco'r ysgol yn trefnu sesiynau casglu sbwriel yn y gymuned leol, ac fe gaiff disgyblion gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian, fel boreau coffi. Mae'r cyfleoedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau arweinyddiaeth a hyder disgyblion.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ymgymryd ag ystod o gyfleoedd sy'n hyrwyddo eu hymwybyddiaeth o dreftadaeth leol, diwylliant Cymreig a natur amrywiol Cymru. Caiff y rhain eu dathlu ar draws yr ysgol; er enghraifft, mae arddangosfeydd rhyngweithiol yn darparu mynediad at arteffactau sy'n meithrin diddordeb yn hanes cloddio glo lleol Tairgwaith fel rhan o'u testun 'Perthyn'. Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn archwilio a deall ystod o ffydd a diwylliannau trwy wasanaethau a gwaith testun. Er enghraifft, mae disgyblion yn archwilio Gŵyl Gristnogol y Cynhaeaf yn ystod eu gwaith ynghylch 'Caredigrwydd', ac mae disgyblion hŷn yn dysgu am ŵyl Hindŵaidd Diwali.

Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cydweithio â disgyblion eraill ac yn mwynhau profiadau y tu allan i'r ysgol; er enghraifft, mae disgyblion yn mynychu trip preswyl antur sy'n helpu datblygu eu medrau meithrin tîm ac arweinyddiaeth. Maent yn perfformio mewn cydweithrediad ag ysgolion lleol eraill yn ystod Gwasanaeth i Gofio am yr Holocaust, ac fel rhan o Ddiwrnod y Cofio, mae disgyblion yn creu a gwerthu pabiau i drigolion lleol ac yn cynrychioli'r ysgol trwy osod croesau wrth y Gofeb Ryfel. Mae hyn yn helpu atgyfnerthu ymdeimlad y disgyblion o berthyn i'r gymuned ac yn datblygu eu hyder.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion fynychu clybiau yn ystod amseroedd egwyl, amser cinio ac ar ôl yr ysgol. Mae nifer dda iawn o ddisgyblion o bob cefndir yn mynychu'r rhain. Mae'r clybiau'n amrywiol ac yn cynnwys antur awyr agored, adeiladu â brics, y celfyddydau perfformiadol, dawns a phêl-droed. Mae'r ysgol yn cynnal timau pêl-droed i ferched a bechgyn ac yn darparu cyfleoedd iddynt gystadlu; er enghraifft, mae tîm y merched yn chwarae yn nhwrnameintiau Dinas Abertawe.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion a delio ag absenoldebau. Mae'n gweithio'n agos gyda rhieni a gofawyr i gefnogi presenoldeb disgyblion bregus. Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu trylwyr ac nid yw eu trefniadau i ddiogelu disgyblion yn peri pryder.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae arweinwyr yn gweithio'n llwyddiannus iawn gyda'r gymuned i sefydlu diwylliant cefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn derbyn gofal. O ganlyniad, mae disgyblion yn bwylllog, yn barchus ac yn ymddwyn yn dda. Mae arweinwyr yn sicrhau cysylltiadau cryf a phwrpasol â'r gymuned ehangach sydd o fudd i'r disgyblion a'u teuluoedd. Gyda'i gilydd, maent wedi creu gweledigaeth ar y cyd sy'n ystyried anghenion a safbwyntiau pawb.

Mae gwaith yr ysgol mewn partneriaeth â rhieni yn fuddiol iawn i'r disgyblion ac yn gryfder yn yr ysgol. Mae teuluoedd yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan staff er mwyn cynorthwyo'u plant. Mae'r berthynas ddwyochrog hon wedi'i seilio ar ymddiriedaeth sylweddol rhieni fod yr ysgol yn gweithredu er lles pennaf y disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o fesurau i fynd i'r afael ag effaith tlodi a darparu profiadau dysgu ar gyfer disgyblion a fydd yn ymestyn eu lles ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu medrau a diddordebau newydd, fel gwersi offerynnau pres unigol a thripiâu preswyl meithrin tîm.

Mae arweinwyr mewn cyfnodau amrywiol o fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi rhoi diwygiadau diweddar Llywodraeth Cymru o ran ADY ar waith yn llwyddiannus, ac yn darparu ymyriadau a chymorth amserol a chefnogol ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r Cydlynnydd ADY wedi mynychu ystod ddefnyddiol o ddysgu proffesiynol ar y diwygiadau, ac o ganlyniad, yn meddu ar ddealltwriaeth gref o'r maes hwn o waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn gweithio'n ddiwyd i werthuso a gwella darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r ysgol mewn cyfnod cynharach o weithredu Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr wedi bod yn treialu gwahanol ffyrdd o gynllunio'r cwricwlwm a'i gyflwyno, ac mae'r ysgol wedi cymryd amser i nodi'r agweddau ar y cwricwlwm a'i drefniadaeth sy'n gweithio orau iddyn nhw. Er enghraifft, mae arweinwyr a staff wrthi'n adolygu a gwella'r cwricwlwm ar gyfer mathemateg ar hyn o bryd ac yn cydweithio i sicrhau bod eu cwricwlwm yn ddigon eang a chytbwys. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae arweinwyr yn cynnal gweithgareddau hunanwerthuso addas. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglant i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella; er enghraifft, maent yn nodi gwendidau mewn meysydd penodol o fedrau disgyblion, fel eu dealltwriaeth o rif. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon craff ar werthuso'r gwahaniaeth a wna addysgu a phrofiadau

dysgu i gynnydd disgyblion. Mae hyn yn golygu eu bod wedi methu rhai meysydd i'w gwella, fel anghysondebau yn ansawdd yr addysgu a'r diffyg ehangder yn narpariaeth medrau mathemategol ac ysgrifennu disgyblion.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y rhan fwyaf o staff yn deall a chyflawni eu rolau yn effeithiol. Ceir ychydig o gyfleoedd i staff ddatblygu eu medrau addysgu ac arsylwi arfer dda o fewn y clwstwr lleol o ysgolion. Mae staff yn cael amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu eu gwybodaeth am gynorthwyo disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a gaiff ychydig o'r staff wedi'u teilwra'n ddigon da i'w hanghenion unigol i'w cynorthwyo i wneud y gwelliannau angenrheidiol i'w haddysgu.

Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n dda at waith yr ysgol ac yn ymfalchïo yn eu rolau. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd lle mae ganddynt rôl weithredol iawn. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o fentrau gwella'r ysgol ac yn ymwneud yn benodol â gwaith yr ysgol ar feithrin cysylltiadau â'r gymuned, ac ymdeimlad y disgyblion o berthyn. Mae eu rôl mewn gwerthuso cynnydd yr ysgol, o ran ei blaenoriaethau gwella ac mewn herio arweinwyr yr ysgol, yn datblygu'n briodol. Maent yn cynorthwyo arweinwyr i fonitro a defnyddio adnoddau ariannol, gan gynnwys cyllid grant, yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn llwyddiannus i ariannu rhaglenni ymyrraeth i wella medrau darllen disgyblion. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod trefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac maent yn gweithio'n dda gydag arweinwyr i gyfrannu at ddiwylliant diogelu cadarn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrandao arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2024